**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Mai 2018

Annwyl Simon,

Ym mis Gorffennaf, bydd 10 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r cyn-Brif Weinidog Rhodri Morgan a'r cyn-Ddirprwy Brif Weinidog Ieuan Wyn Jones lansio'r *Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru* - a ddaeth i'w adnabod yn fuan fel 'Comisiwn Holtham' - gan roi cychwyn da i daith Cymru tuag at ddatganoli cyllidol.

Ers hynny, mae llawer o bobl wedi helpu pob Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol a fu ers hynny i gyrraedd ble ydyn ni nawr: y trethi Cymreig cyntaf ers canrifoedd; newid positif parhaol i fformiwla Barnett; darpariaethau ar gyfer cael benthyg cyfalaf a refeniw; a pharatoadau ar gyfer cyflwyno treth incwm Gymreig.

Mae'r rhain yn newidiadau enfawr ac i nodi'r dengmlwyddiant, rwyf am wahodd cyfranwyr pwysig i ddod ynghyd gyda'r nos 16 Gorffennaf. Bydd yn gyfle inni ddiolch iddyn nhw am eu help, i gydnabod yr hyn y maen nhw wedi'i wneud ac i ddisgwyl ymlaen at heriau'r dyfodol.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi chwarae rhan bwysig yn y broses hon, a byddaf yn gwahodd cyn aelodau ac aelodau presennol. Gwnes i feddwl hefyd y carech chi efallai, fel cadeirydd y pwyllgor, gynnal y noson ar y cyd â fi?

Bydd fy swyddogion am drafod y manylion gyda chi ac rwy'n gobeithio y byddwch chi ac aelodau eraill y pwyllgor yn gallu bod yn bresennol.

Yn gywir,
Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.